PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

# Ordinhad 32

# Dirprwy i'r Is-ganghellor a Dirprwy Is-Gangellorion

| | |
|---|---|
| **Corff Cymeradwyo:** | Y Cyngor |
| **Dyddiad Cymeradwyo:** | 14 Mehefin 2021 |
| **Perchennog y Polisi:** | Ysgrifennydd y Brifysgol |
| **Swyddog Polisi:** | Dirprwy Ysgrifennydd |
| **Statws y Polisi:** | Newydd |
| **Fersiwn:** | 1 |
| **Dyddiad adolygu:** | Mehefin 2024 |

## Ordinhad 32
## Dirprwy i'r Is-ganghellor a Dirprwy Is-Gangellorion

1) Bydd y Cyngor yn penodi Dirprwy i'r Is-ganghellor a Dirprwy Is-Gangellorion, yn dilyn proses o ddewis. Y Cyngor fydd yn penderfynu ar nifer y Dirprwy i'r Is-Ganghellor a'r Dirprwy Is-Gangellorion ar argymhelliad yr Is-Ganghellor.

2) Penodir Dirprwy i'r Is-Ganghellor a Dirprwy Is-Gangellorion am dymor o bedair blynedd, gyda'r posibilrwydd o'u hailbenodi am un cyfnod arall o bedair blynedd yn amodol ar gymeradwyaeth y Cyngor.

3) Dim ond i swyddi sy'n gofyn am arweinyddiaeth academaidd y rhoddir teitl Dirprwy i'r Is-ganghellor a Dirprwy Is-Gangellorion. Bydd swydd Dirprwy i'r Is-ganghellor a Dirprwy Is-Gangellorion yn cynnwys y swyddogaethau hynny a ddirprwywyd iddynt gan yr Is-ganghellor.

4) Pan fydd swydd wag yn codi ar gyfer swydd Dirprwy i'r Is-ganghellor neu Ddirprwy Is-Ganghellor, bydd y swydd yn cael ei hysbysebu'n fewnol a gellir ei hysbysebu'n allanol hefyd.

5) Yn dilyn proses o ddewis, penodir Dirprwy i'r Is-ganghellor neu Ddirprwy Is-Ganghellor gan y Cyngor ar argymhelliad yr Is-ganghellor.